Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2017-2018

Awdurdod Derbyn: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Ysgrifennydd i'r Fforwm: Mandy Jones **Manylion cyswllt:** Amanda.Jones@bridgend.gov.uk 01656 642629

Cyfeiriad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Aelodaeth o'r fforwm a phresenoldeb

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r fforwm*	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Mr R Davies	Rheolwr Grŵp - Strategaeth a Pherfformiad Busnes, Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr **Cadeirydd ers canol mis Hydref 2014**	3 blynedd	**ALl**
2. Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru **Is-gadeirydd ers canol mis Hydref 2014**	4 blynedd	**CIW/VA**
3. Y Cyng. C Smith	Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywiad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	1 flwyddyn	**ALl**
4. Mrs D Davies	Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr, Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Aelod o'r fforwm ers mis Mawrth 2018)	0	**ALl**
5. Mr A Slade	Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl	1 flwyddyn	**S/CV**
6. Mrs A Keller	Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath	2 flynedd	**S/VA**
7. Mrs K John	Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla	0	**S/CV**
8. Mrs S Jayne	Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Ogwr	0	**S/CV**
9. Mr J Evans	Pennaeth, Ysgol Heronsbridge	0	**S/CV**
10. Mr W Bond	Llywodraethwr, Ysgol Heronsbridge	10* mlynedd (Ailbenodwyd Tachwedd 16)	**PG**

*** Os yw wedi gwasanaethu mwy na 4 blynedd, rhowch ddyddiad ei ailbenodi hefyd.**

Acronymau yr Aelodau Craidd		
Aelodau a Enwebwyd gan	**Aelodaeth Graidd**	**Acronym**
ALl - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	**LA, LA/SEN, LA/LAC**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	**CIW**
Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys Gatholig	1 i 3	**RC**
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol rheoledig	1 i 3	**S/CV**
Ysgolion - sefydledig	1 i 3	**S/F**
Ysgolion - gwirfoddol dan gymorth	1 i 3	**S/VA**
Cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr	1 i 3	**PG**
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3:	**L/COM**

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	**Nifer aelodau'r fforwm oedd yn bresennol - yn ôl categori**
Cyfarfod cyntaf	7 Medi 2017	**8.** 2 x ALl; 1 x S/VA; 4 x S/CV; 1 x PG
Ail gyfarfod	27 Mawrth 2018	**8.** 3 x ALl; 1 x S/VA; 3 x S/CV; 1 x PG

Cadarnhewch, os gwelwch yn dda, a yw awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad ac wedi penderfynu ar broses y trefniadau derbyn o fewn y cyfnodau amser gofynnol dan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar y Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [yn cynnwys ymgynghoriad ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu'r trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno]. **Os oes unrhyw awdurdod derbyn heb gyflawni o fewn y cyfnodau amser gofynnol, rhowch fanylion yma.** **Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi eu gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?**
Cwblhaodd yr holl awdurdodau derbyn o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yr ymgynghoriad a phenderfynu ar y trefniadau derbyn ar gyfer 2017-2018 o fewn y cyfnodau amser gofynnol dan y Rheoliadau. Nid oes dogfennau ymgynghori wedi cael eu gweld gan awdurdodau derbyn eraill nad ydynt yn awdurdodau lleol yn ffinio â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pa drefniadau derbyn sydd wedi cael eu sefydlu i wasanaethu buddiannau plant agored i niwed?

A fuont yn llwyddiannus?

Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi i gynorthwyo'r plant hyn?

Mae proses dderbyn ganolog yr ALl yn caniatáu mwy o reolaeth dros dderbyn plant agored i niwed a'u monitro.

Mae dau banel derbyn penodol yn gweithredu:

- y CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) a Phanel Meddygol Cymhleth, sy'n cyfarfod yn fisol; a'r
- Panel Mynediad i Addysg (yn cymryd lle'r Fforwm Gosod Disgyblion).

Mae'r Panel Mynediad i Addysg yn cyfarfod yn fisol a'i swyddogaeth yw:

- Gweithio ar y cyd er buddiannau gorau'r disgyblion;
- sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni a darpariaeth yn cael ei gwneud yn brydlon;
- ystyried unrhyw gymorth cynllunio neu gymorth ychwanegol sydd ei angen tra bydd disgyblion yn disgwyl am ddarpariaeth; a
- sicrhau bod cyfrifoldeb/atebolrwydd dros ddisgyblion unigol.

Wrth gyflawni ei swyddogaeth, bydd y panel yn gwneud y canlynol:

- monitro a chynghori ynglŷn â risgiau a phroblemau a all atal plentyn rhag cael mynediad at addysg a chyflawni ei botensial ef/hi;
- cychwyn cyfarfodydd a gweithgareddau datrys problemau sy'n cynorthwyo disgybl i gael mynediad a gallu ffynnu o fewn addysg;
- ymdrechu i ddarparu addysg addas, effeithlon a llawn amser i'r holl ddisgyblion yn brydlon;
- talu sylw dyledus i unrhyw angen meddygol a ganfuwyd, corfforol neu feddyliol neu unrhyw angen dysgu ychwanegol a ganfuwyd (ADY);
- talu sylw dyledus i fannau gwan gwirioneddol neu bosibl a ganfuwyd gan y plentyn, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i lle mae yna bryderon diogelu neu amddiffyn plentyn, mae'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal neu'n aelod o grŵp a nodwyd fel rhai sydd o bosibl yn agored i niwed;
- cadw canolbwynt ar y plentyn ym mhob agwedd ar gynllunio a darparu;
- talu sylw dyledus i ddiogelu data a phreifatrwydd wrth rannu ac ymdrin â gwybodaeth; a
- pharchu hawliau'r plentyn o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) yn cael blaenoriaeth ar gyfer eu derbyn i'r ysgol o'u dewis. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Tîm Cymorth i Ddysgwyr yn gweithio'n agos gyda Chydlynydd Addysg LAC ac, yn ddiweddarach, Rheolwr y Grwpiau Agored i Niwed, er mwyn sicrhau bod disgyblion LAC yn cael mynediad at ddarpariaeth briodol.

Mae'r holl blant â datganiad o anghenion addysg arbennig (AAA) yn cael eu derbyn i'r lleoliad a enwyd ar y datganiad terfynol ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r meini prawf gordanysgrifio.

Mae plant sydd â chyflyrau meddygol neu seicolegol neu amgylchiadau cymdeithasol neilltuol (megis gofalwyr ifanc) wedi eu cynnwys ym meini prawf gordanysgrifio derbyn ysgolion yr awdurdod lleol. Mae angen tystiolaeth gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig, sy'n esbonio'r rhesymau pam mai'r ysgol a ddewiswyd yw'r ysgol fwyaf addas a pha anawsterau fyddai'n codi pe bai rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd plant dau deulu o ffoaduriaid eu cynorthwyo i gael mynediad at addysg briodol o fewn Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch y lleoliad gorau gan gymryd i ystyriaeth lawn y cyngor gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol ar asesiad anghenion pob plentyn a'r ddarpariaeth fwyaf priodol, yn ogystal â'r gymuned lle mae'r plentyn yn byw.

Pa mor dda mae'r gweithdrefnau derbyn o fewn y flwyddyn, y cytunwyd arnynt, wedi gweithio?

Faint o blant sydd wedi cael eu derbyn i bob ysgol dan y gweithdrefnau?

Ydych chi wedi canfod cynnydd yn y niferoedd o dderbyniadau o fewn y flwyddyn; os felly, pa gamau sydd wedi eu nodi i fynd i'r afael â'r broblem?

Mae gan yr Awdurdod Lleol broses gadarn ac mae'r holl geisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn yn cael eu hystyried yn erbyn nifer derbyniadau cyhoeddedig yr ysgol a threfn a niferoedd presennol y dosbarthiadau.

Rhoddir manylion y nifer o geisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn blwyddyn a broseswyd yn Ffigur 1. Cafwyd gostyngiad yn nifer y ceisiadau yn 2017-2018 o gymharu â 2016-2017.

Dengys Ffigur 2 fod yr awdurdod lleol wedi cyflawni gostyngiad un flwyddyn ar ôl y llall yn y nifer cyfartalog o ddiwrnodiau ysgol rhwng dyddiad derbyn ceisiadau derbyn / trosglwyddo o fewn blwyddyn a dyddiad y penderfyniad derbyn.

Dengys Ffigur 3 fod yr awdurdod lleol wedi cyflawni gostyngiad un flwyddyn ar ôl y llall yn y nifer cyfartalog o ddiwrnodiau ysgol rhwng dyddiad derbyn ceisiadau derbyn / trosglwyddo o fewn blwyddyn a dyddiad gosod y disgyblion ar gofrestr yr ysgol y cytunwyd arni. Yn 2017-2018, mabwysiadodd yr awdurdod lleol y dull a ganiateir dan God Derbyniadau i Ysgolion 2013, gyda golwg ar achlysuron pan fydd lle yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gofynnwyd amdani ond nad yw'r cais derbyn/trosglwyddo yn cael ei wneud o ganlyniad i symud tŷ, neu mae'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen newid ysgol ar unwaith. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr awdurdod lleol yn trefnu i'r plentyn gychwyn yn yr ysgol ar ddechrau'r tymor dilynol. Bwriad hyn yw amharu gyn lleied ag y bo modd ar addysg y plentyn a'r plant eraill yn yr ysgol. Roedd nifer cyfartalog y dyddiau ysgol rhwng dyddiad derbyn ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn y flwyddyn a dyddiad gosod y disgyblion hyn ar gofrestr yr ysgol y cytunwyd arni yn llai na 30 diwrnod.

Ffigur 1

Blwyddyn Academaidd	Cyfanswm y ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn blwyddyn a broseswyd	Cynradd		Uwchradd	
		Nifer y ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn blwyddyn a broseswyd	Nifer y ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn blwyddyn nad aethant ymlaen	Nifer y ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn blwyddyn a broseswyd	Nifer y ceisiadau derbyn/trosglwyddo o fewn blwyddyn nad aethant ymlaen
2015-2016	938	690	94	248	64
2016-2017	1377	1035	148	342	67
2017-2018	984	742	111	242	64

Ffigur 2

Blwyddyn Academaidd	Nifer cyfartalog y dyddiau ysgol rhwng dyddiad derbyn y cais a phenderfyniad derbyn	
	Cynradd	Uwchradd
2015-2016	6.88	13.14
2016-2017	5.38	8.41
2017-2018	3	3.312

Ffigur 3

Blwyddyn Academaidd	Nifer cyfartalog y dyddiau ysgol rhwng dyddiad derbyn y cais a'r dyddiad ar y gofrestr					
	Cynradd		Uwchradd		Pawb	
2015-2016	18.237		20.551		18.781	
2016-2017	14.954		20.354		16.234	
	Wedi eu gohirio a heb eu gohirio					
	Heb eu gohirio	Wedi eu gohirio	Heb eu gohirio	Wedi eu gohirio	Heb eu gohirio	Wedi eu gohirio
2017-2018	11.042	29.252	16.038	28.110	12.026	28.930

Pa faterion derbyn allweddol sydd wedi cael eu canfod yn yr ardal?

Beth ydynt a sut mae'r fforwm wedi ymdrin â'r rhain?

- **Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2018-19 -** cymeradwyodd y fforwm y cynnig i'r llyfryn fod ar gael ar wefan BCBC gyda chopïau wedi eu hargraffu ar gael ar gais.

- **Polisi Derbyn Drafft 2019-20 –** bu'r fforwm yn ystyried y polisi drafft a'r diwygiadau; fe wnaethant nodi'r atebion a dderbyniwyd a chymeradwyo'r polisi terfynol.

- **Niferoedd derbyn cyhoeddedig ysgolion (PANs) ar gyfer 2019-2020** – bu'r fforwm yn ystyried gwybodaeth am gynigion ar gyfer newidiadau i'r PANs a sylwadau a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad.

- **Adroddiad Blynyddol -** derbyniodd y fforwm yr Adroddiad Blynyddol am 2016-17.

- **Dyddiadau Cyffredin** - derbyniodd y fforwm yr amserlen dderbyn ddrafft ar gyfer derbyniadau 2019-20 a nododd y câi hon ei dosbarthu i ysgolion gwirfoddol dan gymorth.

- **Cymorth i grwpiau o ddysgwyr agored i niwed -** Derbyniodd y fforwm wybodaeth am y gwasanaeth newydd sydd wedi ei greu o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd i gynorthwyo dysgwyr sydd wedi cael eu nodi fel rhai agored i niwed. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i ddysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal (LAC), dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref o ddewis (EHE), dysgwyr sydd wedi eu gwahardd yn barhaol a phlant sydd ar goll o addysg (CME).

- **Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid** - Parhaodd y Fforwm Derbyn i fonitro trefniadau lleoliadau addysgol ar gyfer plant teuluoedd o ffoaduriaid sydd wedi eu hailsefydlu yn y sir.

Pa ddulliau mae'r fforwm wedi eu defnyddio i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniadau a wnaed ganddo?
Rhannwyd atebion gan y fforwm i gynigion/materion gyda rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau derbyn eraill, drwy fecanweithiau cyfathrebu arferol yr Awdurdod Lleol. Mae Cylch Gorchwyl, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol y fforwm yn cael eu cyhoeddi ar dudalen bwrpasol Fforwm Derbyn Ysgolion ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar wefan yr Awdurdod Derbyn:

Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfod y fforwm a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017 ar dudalen Fforwm Derbyn Ysgolion ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2018, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2018 ar dudalen Fforwm Derbyn Ysgolion ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Chwefror 2019, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

Rhowch hefyd y ddolen gyswllt berthnasol, os gwelwch yn dda:

Llofnod: Amanda Jones (Ysgrifennydd i'r Fforwm)

Dyddiad: 11 Chwefror 2019

Dychwelwch yr adroddiad wedi ei chwblhau erbyn Dydd Gwener, 11 Ionawr 2019 i:

IsadranRheoliYsgolion3@wales.gsi.gov.uk

Derbyniadau Ysgol ac Apeliadau

Enw'r Ysgol	Rhif derbyn	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd mewn pryd	Nifer yr apeliadau llwyddiannus gan rieni	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod	Nifer dewisiadau 1af, 2il neu 3ydd y rhieni a gafodd eu bodloni
Ysgol Gynradd Abercedin	30	15	15	0			15
Ysgol Gynradd Afon y Felin	15	24	24	0			24
Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru	30	17	17	0			17
Ysgol Gynradd Betws	30	17	17	0			17
Ysgol Gynradd Blaengarw	24	21	21	0			21
Ysgol Gynradd Bracla	45	44	44	0			44
Ysgol Gynradd Bryncethin	30	39	39	4	0	0	39
Ysgol Gynradd Brynmenyn	22	31	31	0			31
Ysgol Babanod Bryntirion	40	28	28	0			28
Ysgol Gynradd Caerau	45	64	64	0			64
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	20	18	18	0			18
Ysgol Babanod Cefn Glas	66	42	42	0			42
Ysgol Gynradd Coety	60	66	61	3	3	0	66
Ysgol Gynradd Corneli	46	21	21	0			21
Ysgol Gynradd Llangrallo	19	22	22	0			22
Ysgol Gynradd Croesty	30	27	27	0			27
Ysgol Gynradd Cwmfelin	30	28	28	0			28
Ysgol Gynradd Ffaldau	27	14	14	0			14
Ysgol Gynradd Garth	30	23	23	0			23

Enw'r Ysgol	Rhif derbyn	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd mewn pryd	Nifer yr apeliadau llwyddiannus gan rieni	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod	Nifer dewisiadau 1af, 2il neu 3ydd y rhieni a gafodd eu bodloni
Ysgol Gynradd Llidiart	60	60	60	0			60
Ysgol Iau Llangewydd	90	94	94	0			94
Ysgol Gynradd Llangynwyd	11	11	11	0			11
Ysgol Gynradd Maes-yr-Haul	69	63	63	0			63
Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig	46	65	61	0			65
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	40	34	34	0			34
Ysgol Gynradd Nant-y-moel	30	21	21	0			21
Ysgol Gynradd Newton	33	37	37	0			37
Ysgol Gynradd Notais	60	50	50	0			50
Ysgol Gynradd Cwm Ogwr	53	49	49	0			49
Ysgol Gynradd yr Hen Gastell	50	50	50	0			50
Ysgol Gynradd Pencoed	70	71	71	0			71
Ysgol Gynradd Pen-y-bont	45	46	46	0			46
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai	30	30	30	0			30
Ysgol Gynradd y Pîl	30	30	30	0			30
Ysgol Gynradd Plasnewydd	45	33	33	0			33
Ysgol Gynradd Porthcawl	25	16	16	0			16
Ysgol Gynradd y Santes Fair	30	31	31	0			31
Ysgol Gynradd y Santes Fair a Sant Padrig	25	24	24	0			24
Ysgol Gynradd Sant Robert	22	26	26	0			26
Ysgol Gynradd Tondu	42	31	31	0			31

Enw'r Ysgol	Rhif derbyn	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd mewn pryd	Nifer yr apeliadau llwyddiannus gan rieni	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod	Nifer dewisiadau 1af, 2il neu 3ydd y rhieni a gafodd eu bodloni
Ysgol Gynradd Trelales	30	31	31	0			31
Ysgol Gynradd Tremain	65	57	57	0			57
Ysgol Gynradd Tynyrheol	10	10	10	0			10
Ysgol Gynradd West Park	55	62	60	0			62
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	54	49	49	0			49
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw	30	20	20	0			20
Ysgol Sant Cynwyd	45	39	39	0			39
Ysgol y Ferch o'r Sgêr	33	18	18	0			18
Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath	131	126	126	0			126
Ysgol Brynteg	333	201	201	0			201
Ysgol Gyfun Bryntirion	210	217	211	17	7	0	217
Coleg Cymunedol Y Dderwen	276	224	224	0			224
Ysgol Gyfun Cynffig	180	170	170	0			170
Ysgol Maesteg	228	164	164	0			164
Ysgol Gyfun Pencoed	214	150	150	0			150
Ysgol Gyfun Porthcawl	246	183	183	0			183
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	165	109	109	0			109
Cyfanswm	-	3263	3246	24	10	0	3263